**Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol (MPSRG)**
**Gweithdy Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy**
**1 Awst 2018**

**Diben:** Trafod y diffiniad o Dwf Glas, sut y mae ecosystemau'n rhyngweithio â'i gilydd, a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy yng nghyd-destun Cynllun Morol Cenedlaethol drafft Cymru.

**<u>Yn bresennol</u>**

**John Hamer** (Llywodraeth Cymru), **Emily Finney** (Llywodraeth Cymru) **Rebecca Rees** (Llywodraeth Cymru), **Rachel Mulholland** (Cefas), **Mark Russell** (Mineral Products), **Peter Barham** (SUDG), **Christopher O'Brien** (RSPB / WEL), **Lee Murray** (CNC), **Kirsty Lindenbaum** (CNC), **Mike Butterfield** (RYA), **Duncan Savage** (RYA), **Alexander Phillips** (WWF/WEL), **Clare Reed** (MCS/WEL), **Jim Evans** (Cymdeithas Pysgotwyr Cymru), **Mike Frost** (Wood Group), **Neville Rookes** (CLlLC)

1. Yn dilyn y gweithdy cychwynnol ar Ddatblygu Cynaliadwy yng Nghyffordd Llandudno ym mis Gorffennaf, bu aelodau'r Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid Cynllunio Morol yn ystyried y defnydd o'r term 'Twf Glas' yng Nghynllun Morol Cenedlaethol Cymru a sut i ddatblygu'r polisi cynllunio sy'n ymwneud â sut y mae ecosystemau'n rhyngweithio â'i gilydd.

2. Rhoddodd LlC ddiweddariad ar Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 a hynt y gwaith ar y Polisi Adnoddau Naturiol (NRP). Esboniodd sut mae'r NRP yn gysylltiedig â datganiadau ardal a'r Adroddiad ar Sefyllfa Adnoddau Naturiol (SoNaRR).

3. Roedd cyflwyniad ar y cyd gan aelodau Cyswllt Amgylchedd Cymru (WEL) − RSPB, WWF ac MCS. Yn y cyflwyniad, tynnodd WEL sylw at eu pryderon na fydd y Cynllun presennol 'yn arwain at Reoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy'.

4. Cafwyd cyflwyniad gan CNC ar SoNaRR, eu cyngor ar Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy o ran Cynllun Morol Cenedlaethol Cymru ac adborth gan Ddatganiadau Ardal ar Gynllunio Morol.

5. Trafododd y grŵp nifer o bapurau sy'n berthnasol i'r testun yn y cynllun drafft ar Dwf Glas, sut mae polisïau'n rhyngweithio â'i gilydd ac yn cael eu cydlynu – gan gynnwys polisïau trawsbynciol, polisïau sectorau a Rheoli Adnoddau Naturiol yn Gynaliadwy a gosod y trywydd.

6. Ar ôl cael adborth gan y bobl a oedd yn bresennol yn y sesiynau, cynigiodd Llywodraeth Cymru:

   - *Ddileu'r testun ynghylch sut y mae ecosystemau'n rhyngweithio â'i gilydd o'r cynllun;*
   - *Llunio dogfen gysylltiedig ar wahân ar ryngweithio ag ecosystemau a'i chynnwys fel rhan o'r fframwaith cynllunio;*
   - *Llunio'r ddogfen honno o fewn blwyddyn i fabwysiadu'r cynllun;*
   - *Darparu diffiniadau pellach ar gyfer Twf Glas yn seiliedig ar y diffiniad o Dwf Gwyrdd;*
   - *Cynnwys datganiadau cliriach bod yr holl bolisïau yn gyfartal a pheidio â chynnwys hierarchaeth o bolisïau;*
   - *Adolygu'r targedau sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun ar hyn o bryd a chyfeirio yn ôl/trafod â chydweithwyr polisi;*
   - *Peidio â gosod terfynau na thargedau ar gyfer sectorau sydd heb eu gosod eisoes neu nad oes ganddynt unrhyw gynsail o ran hynny;*
   - *Parhau i ddatblygu'r sylfaen dystiolaeth ar gyfer y sectorau hynny yng Nghynllun Cymru a pheidio â diystyru gosod targedau neu derfynau yn y dyfodol os bydd tystiolaeth yn cefnogi hynny.*

Ymholiadau at: Rebecca.Rees2@llyw.cymru